



Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Nos Wener, 9fed o Chwefror 2018 am 7.00y.h.

Prifysgol Glyndŵr, Ffordd Yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW

Presennol: Ann Hughes, Gareth Hughes, David James, Harri Bryn Jones (Cadeirydd), Nia Wyn Jones (Ysgrifennydd), Trefor Jones-Morris, Gareth Lloyd, Bethan Williams, Gill Stephen (Prif Swyddog), Chris Baglin, Gwen Smith, Marian Jones, Bob Gaffey, Yvon Jones, Gareth V. Williams,.

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod blynyddol cyntaf Menter Iaith Fflint a Wrecsam ar ôl uniad Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor ar 1af Ebrill 2017. Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Trefor Jones-Morris ddweud ychydig o eiriau fel cyn cadeirydd Menter Iaith Maelor. Diolchodd Trefor Jones-Morris am y cyfle gan sôn ychydig am yr holl waith a wnaethpwyd gan Fenter Iaith Maelor gan nodi bod yr uniad yn cyfle i symud ymlaen i gyfnod newydd fel rhan o un endid mwy.

2. Ymddiheuriadau:

Alun Evans, Menna Evans, Phil Lovell, Huw Alun Roberts, Llinos Roberts, Gareth Williams, Rhian Davies, Siwan Jones, Rebecca Roberts, Sioned Roberts, Morgan Thomas, Ffion Whitham, Huw Brightwell, Bronwen Wright, Ffion Hughes, Eirian Conlon, Martin Jones, Ruth Rees.

3. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd Blynyddol 2015-16

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfodydd blynyddol Menter Iaith Sir y Fflint (9.11.16) a Menter Iaith Maelor (13.12.16) yn gywir.

4. Materion yn Codi

Dim.

5. Adroddiad Y Prif Swyddog

Cyflwynodd y Prif Swyddog, Gill Stephen, yr Adroddiad Blynyddol. Nododd bod cyfle nawr i adeiladu ar lwyddiannau'r ddwy fenter, e.e. dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Dros y flwyddyn ddiwethaf, o dan ofal y Swyddog Marchnata, cafwyd cyfle i arbrofi gyda dulliau gwahanol o gyfathrebu – megis trwy'r wefan, Facebook a Twitter. Mae'r newidiadau wedi bod yn

llwyddiannus iawn fel modd o gyrraedd y gymuned yn fwy effeithiol ac wedi gwella'r perthynas rhwng y cyhoedd â'r Fenter. Er bod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn gyfnod o newid ac ansicrwydd, mae'r Fenter newydd bellach yn symud ymlaen yn hyderus ar sail gadarn.

Sylwadau

GW - Nodwyd bod y Fenter wedi darparu ystod eang o weithgareddau ac wedi llwyddo i sicrhau darpariaeth Cymraeg i nifer fawr o bobl yn ystod y flwyddyn. Yn bwysig hefyd i nodi bod y Fenter wedi medru sefydlu perthynas da gyda Maer a Chyngor Tref Yr Wyddgrug gan weithio gyda nhw yn ddiplomataidd i Gymreigio pethau sy eisoes yn bodoli, e.e. Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug, Dathliadau Nadolig a'r Ŵyl Goleuni. Rhywbeth gwerthfawr iawn, unigryw i'r Mentrau Iaith yw gwaith fel hyn. Diolch hefyd i Chris Baglin am ei waith yn cyflwyno yn ystod y gwahanol wyliau.

MJ - Nodwyd bod y Fenter yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBS Wrecsam). Bu canmol am waith proffesiynol tîm gwych y Fenter ac am ymroddiad y staff wrth gynnal tri digwyddiad dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar yr un diwrnod. Hefyd am gymryd y cyfle, tra yn Llundain i dderbyn Gwobr y Loteri, i genhadu ac ymweld â'r Ysgol Gymraeg yno.

GS - Yn diolch iddynt am y geiriau caredig. Yn cytuno bod y gwaith o 'Gymreigio' digwyddiadau, gan gwneud y Gymraeg yn fwy amlwg, yn glywadwy ac yn weladwy yn holl bwysig, gan fod y Gymraeg a'r Saesneg yn medru bodoli mewn bydysawdau cyfochrog lle nad yw'r di-gymraeg yn ymwybodol bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith fyw.

BW - Nodwyd bod gwersi nofio Cymraeg dal ddim ar gael ym mhob pwll Cyngor Sir y Fflint. Mae diffyg digon o lefydd mewn ysgolion lleol Cymraeg cynradd yn y ddwy sir yn fater i'w ddatrys ac er bod CBS Wrecsam wedi ymgynghori ar leoliad ysgol Gymraeg newydd, mi fydd trafndiaeth yn anodd i nifer o deuluoedd. Mae angen mwy o waith datblygu Cynlluniau Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSYGA) pob sir ac ar ran Gweinidog Y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Eluned Morgan AC.

GS - Nodwyd y byddai Eluned Morgan AC yn ymweld â digwyddiad gan y Fenter ac mi fasau'n braf gweld cynrychiolaeth da i'w chyfarfod â hi.

Diolchodd y Cadeirydd i Gill a'r staff am ei gwaith gan nodi bod cryfderau, galluoedd a diddordebau gwerthfawr ymysg y staff.

6. Derbyn Cyfrifon hyd at Fawrth 31ain 2017

Nododd Gill bod y Fenter yn derbyn £132,000 gan Lywodraeth Cymru at gynnal Menter Iaith Fflint a Wrecsam a bod rhaid denu arian trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth a grantiau i gwrdd â gwir gostau rhedeg y Fenter.

Bu trafodaeth am yr anghysondeb mewn cyfraniad y Llywodraeth at gostau'r mentrau iaith ar draws Cymru a theimlwyd bod lle i'r Llywodraeth wella ar eu cefnogaeth, yn enwedig i'r

mentrau llai a'r rai ar y ffin â Lloegr lle mae cymaint o waith i'w wneud. Bu galw am ysgolion cynradd Cymraeg ychwanegol ym Mwcle a Wrecsam ac ysgol uwchradd Cymraeg ychwanegol yn ardal Rhos/Rhiwabon.

Diolchwyd i Huw Alun Roberts ac i David James am eu gwaith fel Trysoryddion Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor, hefyd diolch i Ffion Whitham am ei gwaith dros y flwyddyn yn edrych ar ôl cyllid y ddwy Fenter. Nodwyd gwarged o £767 gan Fenter Iaith Sir y Fflint a gorwariant o £579 gan Fenter Iaith Maelor. Mae cronfeydd wrth gefn ac asedau Menter Iaith Maelor bellach wedi eu huno o fewn cronfeydd ac asedau Menter Iaith Fflint a Wrecsam. Derbyniwyd y cyfrifon gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr.

7. Ethol y Bwrdd Cyfarwyddwyr

Yn unol â chyfansoddiad y Fenter rhaid i'r cyfarwyddwyr ymddiswyddo cyn cael eu hailethol. Dymunai Ann Hughes gamu i lawr o'r Bwrdd ar ôl nifer fawr o flynyddoedd o wasanaeth i'r Fenter ac fel Llywodraethwr i Ysgol I.D. Hooson. Diolchwyd i Ann am ei chyfraniad gwerthfawr ac am ei chynngor doeth a chall a nodwyd y byddai colled i'r Fenter hebddi ond ei bod yn dal i gyfrannu at fywyd Cymraeg yr ardal. Roedd pawb arall yn hapus i gael eu hailethol ac i barhau fel cyfarwyddwyr. Pasiwyd felly i ailethol y cyfarwyddwyr canlynol: Alun Evans, Gareth Hughes, Harri Bryn Jones (Cadeirydd), Nia Wyn Jones (Ysgrifennydd), Trefor Jones-Morris, Gareth Lloyd, Phil Lovell, Huw Alun Roberts (Trysorydd), Llinos Roberts, Bethan Williams, Gareth Williams.

Derbyniodd Gareth Hughes yr enwebiad i fod yn Gadeirydd y Fenter, ac i gael ei ethol yn y cyfarfod Bwrdd chwarterol nesaf. Er nad oedd Gareth V. Williams am dderbyn enwebiad i fod yn gyfarwyddwr, awgrymodd iddo fod yn Gyfarwyddwr Cysylltiol, heb bleidlais, i gyfrannu ar faes ei arbenigedd. Cytunwyd yr awgrymiad a nodwyd efallai bod angen newid y cyfansoddiad.

Enwebwyd David James, Marian Jones a Gareth Lloyd i'w hethol fel cyfarwyddwyr yn y cyfarfod Bwrdd chwarterol nesaf. Cynigwyd Elen Lloyd-Davies, Carys Jones, Gwenan Mair a Dwynwen Jones fel cyfarwyddwyr newydd - cytunwyd i estyn croeso i bawb i gyfarfod nesaf y Bwrdd.

Bu trafodaeth ar gynllun y Fenter i sefydlu Pwyllgor Ardal i'r ieuenctid o gwmpas Yr Wyddgrug fel modd i bobl ifanc drefnu digwyddiadau eu hunain. Bydd rhaid i bwyllgor sefydlu cyfansoddiad a chyfrif banc i fedru gwneud cais am grant Loteri - Arian i Bawb. Cytunwyd y bod y cynllun yn un gwerthfawr ac i'w ddatblygu.

8. Unrhyw Fater Arall

Digwyddiad dathlu Maer Yr Wyddgrug

Clywid gan Bob Gaffey, Maer Yr Wyddgrug, am wythnos o ddigwyddiad dathlu Cymru a'r Gymraeg yn Yr Wyddgrug bydd yn dechrau gyda chyngherdd yn Theatr Clwyd ar nos Sul 29ain Ebrill eleni. Bydd Tudur Owen yn cyflwyno'r noson ac mi fydd Dafydd Iwan a

pherfformwyr eraill yn cymryd rhan. Hefyd mae cystadleuaeth eisteddfodol wedi ei gosod i'r ysgolion lleol ar y thema "What Wales Means to Me". Bydd y seremoni gadeirio yn rhan o'r cyngerdd ar y nos Sul. Gofynnodd Yvon Jones am gymorth i drefnu digwyddiadau eraill dros yr wythnos, ac roedd Gill yn hapus i'r Fenter ymateb i'r galw.

9. Dyddiad ac awgrymiadau am Leoliad y Cyfarfod Cyffredin Blynyddol Nesaf

Cynigwyd dyddiad ym mis Tachwedd 2018 a lleoliad yr Ystafell Haydn Rees yn Theatr Clwyd ar gyfer y Cyfarfod Cyffredin Blynyddol nesaf.

Gan gloi'r cyfarfod diolchodd y Cadeirydd bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.